# Cofnodion y Bwrdd wedi'u Cadarnhau

| | |
|---|---|
| **Teitl y Cyfarfod:** | **Cyfarfod Bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru (Busnes)** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | 13 Gorffennaf 2017 Lleoliad: Neuadd y Dref, Aberhonddu, Powys |
| **Aelodau'r Bwrdd:** | Diane McCrea (Cadeirydd)<br>Dr Madeleine Havard (Dirprwy-gadeirydd)<br>Syr Paul Williams (Cadeirydd Pwyllgor Pobl a Thaliadau Cydnabyddiaeth)<br>Nigel Reader (Cadeirydd Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg)<br>Andy Middleton (Cadeirydd Pwyllgor Ardaloedd Gwarchodedig)<br>Dr Elizabeth Haywood<br>Howard Davies<br>Zoë Henderson<br>Dr Emyr Roberts (Prif Weithredwr)<br>Dr Ruth Hall<br>Chris Blake |
| **Aelodau'r Tîm Gweithredol yn bresennol:** | Gareth O'Shea (Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau'r De)<br>Catherine Smith (Cyfarwyddwr Gofal Cwsmeriaid, Cyfathrebu a Gwybodaeth)<br>Ceri Davies (Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu)<br>Tim Jones (Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau'r Gogledd)<br>Kevin Ingram (Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol)<br>Ashleigh Dunn (Cyfarwyddwr Gweithredol Datblygu Sefydliadol a Rheoli Pobl) |
| **Mynychwyr ychwanegol:** | Howard Davies, Pennaeth Llywodraethiant a Chynllunio Corfforaethol<br>Catrin Hornung, Pennaeth Cyfathrebu a Chysylltiadau Allanol – Eitem 2<br>Simon Neale, Rheolwr Rheoleiddio'r Dyfodol – Eitem 4 CNC B B 32.17<br>Karl Shepherd, Uwch-gynghorydd Rheoleiddio'r Dyfodol – Eitem 4 CNC B B 32.17<br>Lyn Williams, Swyddog Polisi'r Iaith Gymraeg – Eitem 6 CNC B B 34.17<br>Peter Garson, Pennaeth Gwasanaethau Masnachol – Eitem 3 CNC B B 31.17 |

# Cofnodion y Bwrdd wedi'u Cadarnhau

**Ysgrifenyddiaeth:** Geri Mills
Noemi Maria Donigiewicz

## 1. Busnes Safonol y Bwrdd

1. Nodwyd y datganiadau o fuddiannau canlynol:

2. Nododd Elizabeth Haywood ei bod wedi derbyn tocynnau am ddigwyddiad gan y Gymdeithas Chwaraeon Modur.
3. Roedd Syr Paul Williams yn dymuno nodi y bydd yn cael ei benodi'n Brior ar gyfer St. John Cymru Wales ar 17 Mehefin, a bod gan y ddau sefydliad fuddiannau tir.
4. Mae Zoe Henderson wedi cael ei hethol yn aelod o Bwyllgor Amgylcheddol Cenedlaethol CLA.

## 2. Briff Marchnata a Chyfathrebu – flwyddyn yn ddiweddarach

5. Gwnaed cyflwyniad diweddaru ar gyflawni'r Cynllun Marchnata-Cyfathrebu a gymeradwywyd gan y Bwrdd ym mis Gorffennaf 2016 gan Catrin Hornung, Pennaeth Cyfathrebu.

6. Bu i'r cyflwyniad drafod ymgyrchoedd a phwysleisio'r ymwneud agos â staff. Roedd y prif bwyntiau'n cynnwys:

- Dywedir straeon amrywiol bob dydd; mae'r cyfryngau cymdeithasol yn galluogi pobl i rannu eu safbwyntiau, ymateb a gwneud newidiadau, a chreodd Cyfoeth Naturiol Cymru ymgyrchoedd er mwyn adlewyrchu hynny.
- #lovepollinators oedd yr ymgyrch gyntaf ar y cyfryngau cymdeithasol i gefnogi strategaeth pryfed peillio Llywodraeth Cymru, ac i ddechrau'r gwaith o gydweithio gyda phartneriaethau eraill. Roedd y cyfryngau cymdeithasol bellach yn arf bwysig ar gyfer rhyngweithio â phartneriaethau a chwsmeriaid.
- Roedd #reportit! yn ymgyrch a oedd yn canolbwyntio ar gael cwsmeriaid i ffonio'r rhif 0800 yn hytrach na'r rhif 0300. Nodwyd cynnydd o 20 y cant yn y galwadau i'r rhif 0300 dros dri mis. Roedd llwyddiant yr ymgyrch yn dangos llawer o botensial.
- Roedd achosion eraill o ryngweithio ar y cyfryngau cymdeithasol yn cynnwys cyfnewidiadau ar waredu gwastraff ac eithriadau gwastraff ffermio, #darganfod ar y cyd â chylchgrawn *Country Walking*, darparu bag cefn i'r teulu i'w ddefnyddio gan archwilwyr golygfaol ar deithiau cerdded, ymgyrch fewnol ar y broses gwerthuso swyddi, cynllunio sefydliadol, gwella ymgysylltiad, gwneud y bobl yn ganolbwynt y cynllun corfforaethol, cystadleuaeth ffotograffiaeth, ymgyrch amgylcheddol #ByddGarbonBositif, a gweithio gyda *Googletrek*.

7. Croesawodd y bwrdd y gwaith a oedd ynghlwm wrth greu'r ymgyrchoedd. Canolbwyntiodd trafodaethau'r bwrdd ar y pwyntiau canlynol:

- Gellir trin achosion cadarnhaol a negyddol yn gywir ac yn brydlon pan fydd staff yn cydweithio; mae'r cyfryngau cymdeithasol yn allweddol – mae'n defnyddio potensial creadigol er mwyn lledaenu newidiadau cadarnhaol, yn mynd i'r afael â materion pwysig ac yn dylanwadu ar bobl drwy brosiectau amrywiol megis: blogiau o ardaloedd arbennig, diweddaru'r wefan, gwella perfformiad ar sail anghenion ein defnyddwyr. O ganlyniad, gwelwyd mwy o sylw cadarnhaol.
- Mae angen meddwl yn ddwys am ymgyrchoedd a'u gwerthuso.
- Mae angen adeiladu 'golwg' fwy cadarnhaol byth yn fewnol ac yn allanol drwy bresenoldeb ar-lein a chyfathrebu.
- Mae'r argymhellion ar gyfer datblygu yn y dyfodol yn cynnwys: canolbwyntio ar adrodd straeon a chynllunio rhagweithiol; defnyddio cynllunio sefydliadol er mwyn sicrhau canolbwynt i gyfathrebiadau; defnyddio cyfleoedd er mwyn ymgysylltu â phartneriaid yng Nghymru, yn enwedig yn y sector cyhoeddus.

8. Gwnaeth y Bwrdd ddiolch i Catrin am y cyflwyniad craff a nodi'r pwyntiau a godwyd.

***Cam gweithredu: Yr ysgrifenyddiaeth i nodi dyddiad ar gyfer diweddariad ym mis Gorffennaf 2018, flwyddyn yn ddiweddarach.***

---

### 3. Cynllun Menter Cyfoeth Naturiol Cymru 2017 – 2022 (CNC B B 31.17)

9. Cyflwynwyd drafft o'r Cynllun Menter gan Tim Jones, gyda chymorth Peter Garson. Esboniodd Tim fod diweddariadau pellach i'r papur, a'r papur terfynol i'w gyflwyno ar unwaith yn dilyn y cyfarfod.

10. Trafododd y Bwrdd y cynllun, gan nodi'r pwyntiau canlynol:

- Yr angen i fonitro incwm a gwariant yn fanwl – gofynnwyd i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg graffu ar gyflawniad y prosiect
- Cyfleoedd ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid / troi'r uchelgais yn fudd positif net i'r amgylchedd
- Ddim eisiau cyfyngu'r sefydliad drwy'r sgiliau sydd ar gael ar hyn o bryd
- Yr angen am atebolrwydd clir am brosiectau a mentrau
- Canolbwyntio ar bosibiliadau technoleg fodern
- Y strwythur yn caniatáu hyblygrwydd
- Angen cynyddu incwm o ffynonellau amrywiol
- Bod yn falch o arwain ym maes meddwl yn arloesol, wrth reoli disgwyliadau.

11. Cymeradwywyd y cynllun gan y bwrdd, yn amodol ar y fersiwn derfynol.

***Cam gweithredu: Peter Garson i rannu fersiwn derfynol y cynllun ag aelodau'r bwrdd er gwybodaeth.***

## 4. Cyllido’r Gwaith o Reoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy (CNC B B 32.17)

12. Ymunodd Simon Neal a Karl Shephard â'r cyfarfod, a chyflwynwyd papur ganddynt yn ceisio cymeradwyaeth gan y Bwrdd i ddatblygu dull Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer cynlluniau codi tâl yn y dyfodol, yng nghyd-destun ehangach Fframwaith Ariannu SMNR.

13. Roedd y ddogfen strategaeth ddrafft yn nodi'r dull o godi tâl yn y dyfodol, ac roedd yn tynnu sylw at yr amcanion canlynol:

- Ceisio gyrru ymddygiadau clyfar, adennill costau, defnyddio dulliau eraill i hyrwyddo cynaliadwyedd, ariannu’r defnydd mwy cynaliadwy o adnoddau naturiol, cymell eraill i wneud y peth iawn, rôl y Cynllun Menter yn y broses hon, ffyrdd gwahanol ac arloesol o ysgogi ymddygiad.
- Gosod fframwaith a'i ddatblygu o fewn grŵp ehangach o randdeiliaid.
- Materion penodol ynghylch treth dirlenwi, cyllidebau bagiau plastig, cynlluniau taliadau ecosystem, trwyddedau ffermio dwys.

14. Roedd sylwadau'r bwrdd yn cynnwys:

- Cadw'r angen i fod yn effeithlon mewn golwg, a dangos yr effeithlonrwydd hwn; lle rydym yn codi tâl, mae angen i'r gwasanaeth fod yn dda, felly mae angen defnyddio prismau amgylcheddol a'r cwsmer. Dylai'r cymhelliant y tu ôl i gamau gweithredu fod yn glir.
- Gwerthuso llwyddiant a'r ffordd ymlaen.
- Defnyddio liferi cadarnhaol ar gyfer rheolaeth gynaliadwy.
- Edrych ar egwyddorion a ffyrdd o weithio er mwyn atgyfnerthu camau gweithredu cadarnhaol.
- Gweithio gyda Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau cysondeb o ran dull.
- Gweithio gydag eraill er mwyn sicrhau cyfathrebu eglur a syml.
- Cynnwys mwy o sectorau diwydiannol er mwyn cefnogi'r dull.

15. Cymeradwywyd argymhellion y papur gan y Bwrdd, a gwnaethant gymeradwyo cyfleoedd gweithio pellach rhwng Andy Middleton a thîm Cyfoeth Naturiol Cymru.

## 5. Papur Adroddiad Cyllid (CNC B B 33.17)

16. Cyflwynwyd y papur gan Kevin Ingram, a nododd y Bwrdd y sefyllfa diwedd blwyddyn a’r sefyllfa ganol blwyddyn gyfredol.

## 6. Adroddiad Monitro Blynyddol yr Iaith Gymraeg (CNC B B 34.17)

17. Ymunodd Lyn Williams â'r cyfarfod er mwyn rhoi diweddariad ar gyflawniad Cyfoeth Naturiol Cymru yn erbyn safonau'r Gymraeg ar gyfer y sefydliad.

18. Nododd y Bwrdd y cyfle i bob aelod o staff ddysgu'r Gymraeg a gweithredu trwyddi o fewn Cyfoeth Naturiol Cymru, ac anogwyd pawb gan y Cadeirydd i ystyried defnyddio mwy o eiriau Cymraeg yn ystod cyfarfodydd.

19. Gwnaeth y bwrdd bwysleisio pwysigrwydd y Gymraeg o ran hunaniaeth, lle a diwylliant, yn ogystal â gweithredu'r ddeddfwriaeth ei hun. Cytunwyd hefyd y dylid cynnig diwylliant cefnogol er mwyn gwella hyder pobl i ddefnyddio'r Gymraeg.

20. Nodwyd yr adroddiad gan y Bwrdd a chymeradwywyd yr argymhellion.

---

## 7. Adroddiadau

**Papur: Adroddiad y Cadeirydd – Diane McCrea (CNC B B 35.17)**

21. Aeth y cadeirydd i'r afael â materion a godwyd ers y cyfarfod diwethaf, gan gynnwys:

- materion llywodraethu a sefydliadol
- yr ymateb i lygredd amaethyddol
- canolbwyntio ar ddelwedd y cyflogwr gofalgar, sydd am i bobl ddweud os oes angen cefnogaeth ychwanegol arnynt
- y grŵp ffocws cwsmeriaid.

22. Nododd Aelodau'r Bwrdd y gweithgareddau a wnaed gan y Cadeirydd ar ran Cyfoeth Naturiol Cymru.

Gweithgareddau Aelodau'r Bwrdd – Diane McCrea (CNC B B 36.17)

23. Trafododd y Bwrdd yr her o gofnodi holl weithgareddau aelodau'r bwrdd Cafodd Aelodau'r Bwrdd eu hatgoffa bod angen cysylltu ag ysgrifenyddiaeth y Bwrdd cyn ymrwymo i bob digwyddiad, yn fewnol ac allanol.

***Cam gweithredu: Ysgrifenyddiaeth i ddatblygu templed ar gyfer Aelodau'r Bwrdd i'w gwblhau er mwyn cofnodi pob gweithgaredd.***

Adroddiad y Prif Weithredwr – Emyr Roberts (CNC B B 37.17)

24. Yn benodol nododd y Prif Weithredwr gyfarfod gyda Natural England, lle roedd eu taith drawsnewid nhw yn debyg i daith Cyfoeth Naturiol Cymru.

Bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru yn Edrych i'r Dyfodol (CNC B B 38.17)

25. Nododd y Bwrdd yr eitemau i'w cyflwyno yng nghyfarfodydd y Bwrdd yn y dyfodol.

## 8. Cofnodion a materion a godwyd, pwyllgorau, cofnodion a materion a godwyd

26. Cafodd cofnodion cyfarfod busnes mis Mawrth eu cymeradwyo heb unrhyw newidiadau.

27. Adolygiad o'r Cofnod o Bwyntiau Gweithredu (Mawrth a Mai 2017) – nodwyd y diweddariadau.

28. Pwyllgor Pobl a Thaliadau Cydnabyddiaeth – Paul Williams

Rhoddwyd diweddariad gan Gadeirydd y Pwyllgor, Paul Williams, o'r cyfarfod ar 16 Mehefin, gan gynnwys:

- Briff ar amserlen y cynllun gwerthuso swyddi a'r cynllun sefydliadol
- Diweddariad ar raglenni hyfforddi arweinyddiaeth a rheolaeth
- Diweddariad Llesiant, Iechyd a Diogelwch (CNC B B 39.17)
- Mae'r tueddiadau o ran absenoldeb oherwydd salwch yn codi, ond yn parhau o fewn paramedrau derbyniol.
- Cytuno i'r argymhellion ar daliadau cydnabyddiaeth y Tîm Gweithredol ar gyfer 2016-17.
- Yn aros o hyd am ddiwygiadau i gynllun pensiwn y llywodraeth leol.

29. Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg –

Rhoddwyd diweddariad gan Gadeirydd y Pwyllgor, Nigel Reader, o'r cyfarfod ar 16 Mehefin, gan nodi'r pwyntiau canlynol:

- Adroddiad Archwilio Mewnol – roedd lefel sicrwydd cyffredinol adroddiad 2016/17 yn ganolig, ac yn cael ei gefnogi gan farnau ategol.
- Rhaglen Archwilio Mewnol 2017/18 – cytunwyd, yn amodol ar drafodaeth bellach o ran sicrwydd iechyd a diogelwch.
- Cafodd cofnodion o gyfarfod mis Mawrth eu nodi'n ffurfiol
- Diweddariad ar adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ynghylch cytundebau pren hirdymor

30. Gwnaeth y Bwrdd ddiolch i Nigel Reader am ei rôl yn cadeirio'r pwyllgor cyn trosglwyddo swydd y Cadeirydd i Karen Balmer.

31. Grŵp cynghori perygl llifogydd

Rhoddwyd diweddariad gan Madeleine Havard o'r cyfarfodydd ar 3 Gorffennaf. Bydd cofnodion yn dilyn yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Medi i'w cadarnhau, gan nodi'r pwyntiau canlynol:

- Cafodd y rhaglen perygl llifogydd cyffredinol ei hadolygu a'i derbyn.
- Trafodaeth am gyflwr yr asedau llifogydd – rhoddwyd esboniadau ac mae

camau gweithredu bellach ar waith er mwyn cyrraedd y targedau.
- Roedd y bwrdd yn hapus gyda'r cynnydd ar yr ardaloedd draenio mewnol.

32. Pwyllgor Ardaloedd Gwarchodedig – dim angen diweddariad.

## 9. Unrhyw faterion eraill

33. Ni chodwyd unrhyw faterion eraill.

## 10. Daeth y cyfarfod i ben.

### Fforwm cyhoeddus

- 34. Bydd cyfle i'r mynychwyr roi adborth a/neu sylwadau ynghylch unrhyw agwedd ar y cyfarfod a gofyn cwestiynau i'r Bwrdd mewn sesiwn agored.
- 35. Ar ôl y cyfarfod, codwyd y pwyntiau canlynol gan dri aelod o'r cyhoedd:

36. Pwysleisiodd Mr. Gareth Wardell fod rôl yr iaith Gymraeg yn bwysig iawn nid yn unig o safbwynt ieithyddol, ond o safbwynt moesegol hefyd

37. Nododd hefyd nad yw bob amser yn hawdd edrych ar y wefan er mwyn dod o hyd i rif ffôn ar gyfer cyfeiriad lleol i Cyfoeth Naturiol Cymru, na chyfeiriad e-bost. Awgrymodd y byddai gwneud manylion cyswllt ac argaeledd Cyfoeth Naturiol Cymru yn fwy hysbys yn fanteisiol at ddibenion democratiaeth a thryloywder.

38. Gofynnodd Rachel Evans am eglurder dros yr Arolygiad Saethu. Trafododd Rachel Evans ei dealltwriaeth o bwysigrwydd saethu fel math o chwaraeon yn y gymuned leol ac fel atyniad twristaidd. Cadarnhaodd Ceri Davies fod 36 o ymatebion wedi'u derbyn o'r cais am dystiolaeth; roedd rhywfaint o lythyrau unigol, rhai ohonynt gyda chryn dipyn o wybodaeth ategol. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn edrych am sefydliad academaidd i gynnal adolygiad gan gymheiriaid o'i ddull o weithredu, er mwyn asesu'r sefyllfa. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru eisiau datrys y broblem drwy ddefnyddio dull sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

39. Dywedodd y cadeirydd fod angen i'r adolygiad ystyried y darlun ehangach, a'r hyn y mae saethu yn cyfrannu at yr economi leol yn ogystal â datblygiad cynaliadwy, ac nad adolygiad arfau tân yn unig oedd hwn.

40. Jack Hanby – roedd yn awyddus i drafod cynnydd ar achos o wastraff anghyfreithlon. Cytunodd y Cadeirydd i roi ymateb ffurfiol. Cadarnhaodd Gareth O'Shea fod Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweithio tuag at fframwaith rheoleiddiol sy'n caniatáu eithriadau, ac y byddant yn ymateb i'r materion a godwyd cyn y dyddiad cau ym mis Medi a nodwyd gan y Cadeirydd.